

NEWYDDION

barcud

GWANWYN 2023



Neges gan Steve Jones Prif Weithredwr Grŵp

Croeso i rifyn y gwanwyn o Newyddion Barcud. Diolch i bob aelod o'r tîm sydd wedi creu'r rhifyn hwn ac i aelodau Grŵp Monitro Barcud am eu cymorth a'u cyfraniad.

Byddwch yn cael rhagor o wybodaeth am gontractau Rhentu Cartrefi Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Cofiwch eu darllen oherwydd bydd rhai newidiadau'n effeithio arnoch chi fel deiliad y contract (yr enw newydd ar denant yn y dogfennau) ac ar Barcud fel landlord.

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, mae yna alw mawr am gartrefi rhent. Rydym yn parhau â'n rhaglen ddatblygu ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod cartrefi gwag yn barod i'w hailosod cyn gynted ag sy'n bosibl. Os ydych yn adnabod pobl sy'n chwilio am gartref, dylech eu hannog i gofrestru ar Gofrestrau Tai Cyngor Sir Ceredigion neu Gyngor Sir Powys (mae'r dolenni cyswllt ar dudalen 5).

Yn ddiweddar, buodd Grŵp Monitro Barcud yn cynorthwyo gyda thafelen a luniwyd gennym am Leithder, Llwydni ac Anwedd. Dylech fod wedi

cael y daflen yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Rydym hefyd wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ar dudalen 7 gyda 10 cyngor am sut i leihau effeithiau posibl Lleithder, Llwydni ac Anwedd ar eich cartref. Mae angen i bawb gymryd cyfrifoldeb. Os oes gennych unrhyw broblemau gyda'ch eiddo, cofiwch gysylltu â'n tîm gwasanaethau i gwsmeriaid cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'r gwanwyn yn nesáu ac mae'n braf gweld bod Alisa yn trefnu Cystadleuaeth Arddio arall i denantiaid. Mae garddio'n wych i'n hiechyd a'n lles ac mae ymfalchïo yn ein cartrefi, ein gerddi a'n cymunedau bob amser yn rhoi hwb i'r galon – yn enwedig yn y gwanwyn.

Cymerwch ofal a mwynhewch y tywydd braf, Steve



I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030

Pwyswch 1 (tenantiaid Tai Ceredigion gynt)

Pwyswch 2 (tenantiaid Tai Canolbarth Cymru gynt)

Yn denantiaid newydd i Barcud?

Am gael gwybodaeth leol am ein gwaith?

Pwyswch 1: Os ydych yn byw yng Ngheredigion

Pwyswch 2: Os ydych yn byw ym Mhowys

Drwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Ar-Lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' sydd ar ein gwefan

Facebook: Barcud

Twitter: @taibarcud

post@barcud.cymru

(ymholiadau cyffredinol)

consent@barcud.cymru

(unrhyw gwestiynau am gydsyniad)



Buodd cydweithwyr yn Barcud yn cefnogi ymgyrch i gyfrannu i bob un o'n banciau bwyd lleol dros y Nadolig. Roedd yn braf cefnogi'r gwirfoddolwyr gwyh a fuodd yn ein helpu drwy gydol y flwyddyn.

Food Bank
Donation Box

Neges gan Grŵp Monitro Barcud

Mae 2023 yn flwyddyn brysur yn barod i'r Grŵp. Rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â rhai ohonoch eleni yn ein hamryw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ym Mhowys a Cheredigion. Bydd ein digwyddiad cyntaf yn cael ei gynnal yn y Drenewydd ym mis Mawrth (Fforwm Cyswllt y Tenantiaid) lle bydd Steve Jones (Prif Weithredwr Grŵp Barcud) yn rhoi diweddariad am Barcud. Gallwch glywed am strategaeth newydd Barcud ynghylch Lleithder a Llwydni, clywed sut y mae'r codiadau rhent ar gyfer 2023/24 wedi'u cyfrifo, a chael diweddariad gan y Grŵp Monitro. Bydd stondinau yno hefyd gan y tîm Tai, y tîm Cynnal a Chadw a thîm Cynnal, a fydd yn medru eich helpu gydag unrhyw broblemau a allai fod gennych. Mae croeso i bawb, felly cofiwch ddod draw os gallwch chi. Fel bob amser, rydym yn chwilio am aelodau newydd i'n helpu gyda'n gweithgareddau. Maent yn cynnwys:

- Archwilio eiddo cyn bod tenant newydd yn symud i mewn.
- Cynnal archwiliadau rheoli ystadau er mwyn sicrhau bod ein hystadau'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda a'u bod yn ddiogel.
- Cynnal arolygon dros y ffôn.
- Adolygu polisïau'n ymwneud â thenantiaid.
- Gweithio gyda Barcud ar strategaethau a pholisïau newydd, e.e. y Strategaeth ynghylch Lleithder a Llwydni.
- Monitro'r gwasanaethau a gawn gan Barcud er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu ein hanghenion (ni fel tenantiaid).



- Cwrdd â thenantiaid ledled Cymru mewn digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddi.
- Cynnal Fforwm Cyswllt y Tenantiaid a'n Cynhadledd i Denantiaid a dewis cyflwynwyr ar eu cyfer.

Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn o'n gweithgareddau; bron bob mis, mae yna rywbeth newydd i ni ymwneud ag ef.

Os oes gennych rhywfaint o amser sbâr bob mis ac os ydych yn chwilio am rywbeth i'w wneud a allai helpu pob un o'n tenantiaid a Barcud, ystyriwch ymuno â ni. Mae'r Grŵp Monitro wedi cael cydnabyddiaeth a Gwobrau Cenedlaethol

yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ni yw'r unig Grŵp Tenantiaid annibynnol yng Nghymru. Ymunwch â ni i'n helpu i adeiladu ar ein llwyddiannau a'n gweithgareddau presennol, a gwneud ffrindiau newydd ar yr un pryd.

Os hoffech ddysgu mwy neu fynychu un o'n cyfarfodydd a drefnir bob mis, mae croeso i chi gysylltu â Sue neu Alisa ar 0300 111 3030 neu drwy anfon ebost i post@barcud.cymru Cymerwch ofal a gobeithio y gwelwn ni chi yn rhai o'n digwyddiadau eleni.

Paul Clasby

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud



Dogfen Adnabod Pleidleisiwr

O 4 Mai 2023 ymlaen, bydd angen i chi ddangos dogfen adnabod â llun wrth bleidleisio'n bersonol mewn rhai etholiadau a refferenda. Bydd angen dogfen adnabod o'r fath arnoch i bleidleisio yn yr etholiadau canlynol:

Is-etholiadau Senedd y DU • Etholiadau lleol yn Lloegr (gan gynnwys etholiadau cynghorau, meiri, Awdurdod Llundain Fwyaf a phlwyfi) • Deisebau Adalw Aelodau Seneddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban • Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr • Refferenda cynllunio cymdogaeth a refferenda Ardaloedd Gwella Busnes yn Lloegr • Refferenda awdurdodau lleol yn Lloegr (gan gynnwys refferenda ynghylch cynnydd yn y dreth gyngor)

Mae'r rhestr o'r dogfennau adnabod â llun sy'n dderbyniol i'w gweld yma: www.gov.uk/sut-i-bleidleisio/prawf-adnabod-ffotograffig-angenrheidiol

Os nad oes gennych ddogfen adnabod â llun sy'n dderbyniol, gallwch wneud cais am ddim i gael 'Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr' yma: www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr



Cadwch Eich Draeniau'n Glir!

Ar gyfer dŵr brwnt y mae tyllau plygiau a thoiledau, nid ar gyfer sbwriel.

Ni ddylech ddefnyddio sinciau a thoiledau i gael gwared ag unrhyw un o'r canlynol:



Ffyn cotwm



Gweddillion bwyd



Llafnau rasel



Cewynnau sydd i'w taflu



Weips glanhau



Nwyddau mislif



Braster, olew a saim



Chwistrellau a nodwyddau



Condomau a ffemidomau



Rhwymynnau a phlastrau



Bagiau plastig a deunyddiau lapio

Y Diweddaraf am Renti 23/24

Byddwch wedi cael eich llythyrau rhent ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 drwy'r post. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod cymdeithasau tai yn pennu rhenti yn unol â'i chanllawiau hi, gan roi pwys ar fforddiadwyedd ac ar sicrhau bod cartrefi a gwasanaethau'n cynnig gwerth da am arian. Mae Barcud wedi ymrwymo i egwyddorion fforddiadwyedd Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer y sector cyfan:

Fforddiadwy Byddwn yn ystyried incwm a chyfanswm costau rhentu cartrefi er mwyn deall beth sy'n fforddiadwy ar gyfer ein tenantiaid, ac yn sicrhau bod tenantiaid yn cael y cyfle gorau i gynnal eu tenantiaethau a ffynnu.

Cynaliadwy Byddwn yn pennu rhenti sy'n ein galluogi i barhau i ddarparu cartrefi diogel a chynnes o safon ar gyfer y bobl mae arnynt eu hangen yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Broteifi yn Cyflwyno Sieciau

Yn ddiweddar, cyflwynodd tenantiaid yng Nghynllun Tai Gwarchod Broteifi yn Aberteifi ddwy siec o £225 yr un i gynrychiolwyr dwy elusen leol, sef Gofal Canser Aberteifi a Chacen a Chlonc Aberteifi. Cafodd yr arian ei godi gan y preswylwyr wrth iddynt gynnal arwerthiant pen bwrdd.

Cynnwys Byddwn yn cynnwys tenantiaid er mwyn datblygu ac adolygu ein dull o bennu rhenti, a llywio ein penderfyniadau ar renti.

Teg Byddwn yn gweithio i sicrhau bod rhenti a thaliadau eraill yn cael eu pennu'n deg a bod ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian.

Atebol Byddwn yn agored, yn dryloyw ac yn atebol pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ar renti.

Hyd yn oed o ystyried yr uchod, rydym yn sylweddoli y gall fod yn anodd ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn rhent yn awr.

Os ydych yn cael trafferth talu eich rhent neu os oes angen cymorth arnoch i gyllidebu neu hawlio budd-daliadau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm Cynnal a all gynnig cyngor neu gymorth.



Rhaglen Barcud ar gyfer Buddsoddi Cyfalaf mewn Eiddo – Ein blaenoriaethau a lywiwyd gan ein tenantiaid

Yn ystod y tair blynedd nesaf yn rhan o'n Strategaeth Ddatgarboneiddio, bydd Barcud yn sicrhau bod ei raglen buddsoddi cyfalaf yn canolbwyntio ar adeiladwaith yn gyntaf. Mae dull Adeiladwaith yn Gyntaf o weithredu'n golygu rhoi blaenoriaeth i doeau, drysau a ffenestri a gwella lefelau inswleiddio er mwyn gwella perfformiad thermol adeilad yn gyffredinol. Yn rhy aml o lawer caiff gwres ei golli oherwydd bod eiddo wedi'i inswleiddio'n wael, a bydd y dull hwn o weithredu'n fodd i leihau'r gwres a gollir a gostwng biliau ynni.

Mae ein Strategaeth Ddatgarboneiddio yn cydnabod pwysigrwydd canolbwyntio ar adeiladwaith yn gyntaf cyn bod systemau gwresogi newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn cael eu gosod. Yn gryno, mae angen i ni sicrhau bod y gwres yr ydych yn talu amdano'n aros yn eich cartref yn hytrach na'i fod yn dianc oherwydd inswleiddio gwael. Ein nod yw gostwng biliau ynni i'n tenantiaid a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Adeiladwaith yn Gyntaf yw cam cyntaf ein Strategaeth Ddatgarboneiddio. Yna, byddwn yn gosod systemau gwresogi newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, pan fydd yn bryd gosod system newydd yn lle hen un. Mae rhai o'n tenantiaid wrthi ar hyn o bryd yn ein helpu i dreialu systemau gwresogi newydd, megis pypiau gwres o'r aer gyda phaneli solar ffotofoltäig neu wresogyddion sy'n cadw llawer iawn o wres, a fydd o gymorth mawr wrth i ni symud ymlaen. Rydym hefyd yn cadw golwg ar ddatblygiadau newydd ym maes systemau gwresogi er mwyn sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r system sydd fwyaf effeithlon i chi, ein tenantiaid. Rydym hefyd yn cydnabod bod cael systemau hawdd eu defnyddio, gosod systemau'n

unol â ffordd o fyw tenantiaid, a dangos i denantiaid sut mae defnyddio systemau newydd yn flaenoriaeth bwysig i chi.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i osod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn lle hen rai pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes, ac i sicrhau bod eich cartrefi mewn cyflwr da o safbwynt eu hadeiladwaith, eu bod yn ddiogel i chi fyw ynddynt ac nad oes lleithder ynddynt, fel sy'n ofynnol dan Safon Ansawdd Tai Cymru Llywodraeth Cymru a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Fodd bynnag, ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar adeiladwaith yn gyntaf gan sicrhau bod perfformiad thermol gwisg yr adeilad yn dda. Byddwn wrth gwrs yn sicrhau nad yw'r dull gweithredu hwn yn effeithio ar ein gwasanaeth cynnal a chadw ymatebol, a bod pob un o elfennau'r gwasanaeth yn gweithredu fel y bwriadwyd.

Rydym wedi bod yn ymgynghori â'n tenantiaid a chynrychiolwyr tenantiaid o Grŵp Monitro Barcud am bryderon ynghylch 'gwres fforddiadwy' ac rydym wrthi'n datblygu Polisi Gwres Fforddiadwy i ategu ein Strategaeth Ddatgarboneiddio, wrth i ni gydnabod pwysigrwydd lleihau costau ynni i'n tenantiaid gymaint ag y bo modd a cheisio lleihau ein hól troed carbon cyffredinol ar yr un pryd yn unol â dull Sero Net Llywodraeth Cymru o weithredu.

Mae ein Strategaeth Ddatgarboneiddio a'n Cynllun Gweithredu wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr tenantiaid o Grŵp Monitro Barcud. Os hoffech gael copi o'r Strategaeth, gallwch ofyn am un drwy ffonio Barcud ar 0300 111 3030 neu drwy anfon ebost i post@barcud.cymru

Dod i Hyd i Gartref Newydd

Ydych chi'n adnabod pobl y mae angen iddynt fod ar y Gofrestr Tai?

Mae cartrefi Barcud yn cael eu gosod drwy Gofrestrau Tai Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Dyma'r dolenni cyswllt er mwyn cofrestru.

www.homesinpowys.org.uk/

www.ceredigionhousingoptions.cymru/

Cydsyniad a chymeradwyaeth

Os oes angen i chi ofyn am ein caniatâd i wneud unrhyw newidiadau i'ch cartref neu'ch gardd, neu ofyn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch contract newydd, cofiwch ddefnyddio'r cyfeiriad ebost hwn: consent@barcud.cymru

RHYWBETH AIL-LAW WEDI DAL EICH LLYGAD? GWNEWCH E'N SWYDDOGOL!

YN RHWYDD!

AM DDIM!

Register my appliance

Newydd i chi? Cofrestrwch ar gyfer atgyweiriadau diogelwch ac adalwadau. registermyappliance.org.uk

Cystadleuaeth Lluniau o Erddi 2023

Cofiwch gymryd rhan er mwyn cael cyfle i ennill taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio.

Rydym yn gwybod bod cael eich gardd i edrych yn bert yn golygu llawer o ymroddiad a gwaith caled, a byddem yn dwlu gweld eich gerddi hyfryd. Dyma ragrybudd, felly, er mwyn i chi allu dechrau cynllunio eich gwelyau blodau, eich potiau, eich basgedi crog a'ch gerddi llysiau arobryn. Dyw'r dyddiad cau ddim tan 11 Awst, felly does dim brys.

Rydym yn gofyn i chi anfon eich lluniau atom eleni eto. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd am dro o amgylch eich gardd gyda'ch camera a rhannu eich lluniau â ni. Gallwch eu hanfon drwy ebost, neu'u hargraffu a'u hanfon atom drwy'r post.

Mae garddio'n wych i'ch iechyd a'ch lles. Mae gardd liwgar a diddorol nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth i'ch eiddo chi ond hefyd yn gallu bod o fudd i'r amgylchedd a'r gymuned yr ydych yn byw ynddi.

Bydd enillydd pob categori'n cael taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf y llythyr newyddion. Pob lwc i bawb.

Dyma'r categorïau:

1. Arddangosfa Flodau Orau (gardd breifat)
2. Basged Grog, Llestr Blodau neu Flwch Ffenestr Gorau
3. Gardd Llysiau Orau
4. Arddangosfa Flodau Orau mewn Llestr Anarferol
5. Nodwedd Orau Sy'n Garedig i Bryfed neu'r Amgylchedd/Bywyd Gwyllt mewn Gardd (i rai dan 16 oed)
6. Gardd Orau mewn Cynllun Tai Gwarchod
7. Gardd Gymunedol Orau (nad yw mewn cynllun)

Anfonwch lun o'ch ymgais chi, gan nodi'n glir rif y categori yr ydych am gystadlu ynddo, yn ogystal â'ch enw a'ch cyfeiriad yn llawn. At ddibenion dilysu, rhaid eich bod chi yn y llun gyda'ch ymgais. Rhaid i luniau gael eu hanfon heb eu bod wedi'u golygu yn ddigidol ond caniateir i chi eu tocio, addasu lefel y golau ac eglurder y llun, a gwneud mân gywiriadau i'r lliwiau.

Mae'r telerau a'r amodau i'w gweld ar ein gwefan: barcud.cymru

Dylech anfon eich lluniau i'r cyfeiriad canlynol:

Cystadleuaeth Arddio 2023

At sylw: Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL neu drwy ebost at Alisa.Cakebread@barcud.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn lluniau yw

dydd Gwener 11 Awst 2023



“Mae blodau bob amser yn gwneud i bobl deimlo'n well, yn hapusach ac yn fwy cymwynasgar; maent yn heulwen, yn fwyd ac yn falm i'r enaid.” [Cyfieithiad] – Luther Burbank

10 Cyngor am Sut i Leihau Lleithder a Gwlybanaeth yn Eich Cartref

Sicrhewch eich bod yn cael gwared â chymaint ag sy'n bosibl o'r gwlybanaeth yr ydych yn ei chreu, cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae hynny'n golygu defnyddio eich ffaniau echdynnu yn y gegin a'r ystafell ymolchi. Ond gwnewch yn siŵr bod eich ffan yn gweithio. Nid yw'r ffaith ei bod yn gwneud sŵn yn golygu ei bod yn gweithio. Daliwch ddarn o bapur tŷ bach yn erbyn y gorchudd i weld a yw'r darn o bapur yn aros yn ei le. Os nad yw, nid yw'r ffan yn gwneud dim byd ond sŵn. Cysylltwch â Barcud os yw eich ffan echdynnu yn achosi unrhyw broblemau i chi.

Cadwch eich cartref yn gynnes. Gall aer cynnes ddal mwy o wlybanaeth nag aer oer. Po gynhesaf yw'r aer, y mwyaf o wlybanaeth y gall ei ddal. Ceisiwch sicrhau bod tymheredd isaf yr aer bob amser yn 18°C+.

Peidiwch â defnyddio'r botwm ymestyn amser ar eich boeler. Mae defnyddio'r botwm ymestyn amser am awr yn ddrud ac yn aneffeithlon iawn, ac mae angen mwy nag awr i wresogi'r aer yn sylweddol. Mae cadw tymheredd yr aer ar lefel gyson yn fwy cysurus ac yn rhatach o lawer; ac fel y nodwyd eisoes, mae aer cynnes yn dal mwy o wlybanaeth.

Defnyddiwch y fentiau bach sydd ar dop eich ffenestri, NID fentiau sydd ar agor led y pen. Byddwn yn clywed yn gyson bod angen i ni awyru ein cartrefi, ond nid yw hynny'n golygu eu hawyru'n ddireol. Caiff y rhan fwyaf o reiddiaduron eu gosod o dan y ffenestri, ac rydym yn gwybod bod aer cynnes yn gallu dal mwy o wlybanaeth nag aer oer. Felly, sut mae cael y gorau o'r ddau fyd? Wel, drwy agor yr hollt bach sydd ar dop y ffenestr. Mae hynny'n galluogi rhywfaint o aer i ddod i mewn i'r eiddo ac yn ei gwneud yn bosibl hefyd i'r rheiddiadur gynhesu'r aer.

Pan fyddwch yn cael cawod, caewch ddrws yr ystafell ymolchi, sychwch eich hun yn yr ystafell ymolchi, dewch allan o'r ystafell, caewch y drws a gadewch y ffan echdynnu ymlaen am 10 munud arall ar ôl i chi adael yr ystafell. Mae'r rhan fwyaf o ffaniau echdynnu wedi'u cysylltu â'r golau, ac maent wedi'u gosod fel eu bod yn aros ymlaen ar ôl i'r golau gael ei ddiffodd.

Oherwydd y tywydd a gawn, nid yw bob amser yn bosibl sychu dillad y tu allan. Mae defnyddio peiriant sychu dillad yn eithriadol o ddrud. Felly, os oes raid, sychwch eich dillad mewn ystafell sydd â ffan echdynnu a gadewch y ffan ymlaen. Cofiwch gadw'r drws ar gau a sicrhewch fod y gwres ar dymheredd isel cyson o 18°C.

Ceisiwch sychu eich dillad ar yr adeg gynhesaf o'r dydd, pan fydd tymheredd naturiol yr aer yn gynhesach nag y mae gyda'r nos.

Pan fyddwch yn coginio, defnyddiwch y ffan echdynnu a rhowch gaead ar y sosbenni y mae rhywbeth yn berwi ynddynt. Bydd hynny'n lleihau'r gwlybanaeth sy'n mynd i'r atmosffer.

Pan fyddwch yn llenwi'r bath, throwch y tap dŵr oer ymlaen yn gyntaf nes bod gennych ddigon o ddŵr oer i orchuddio gwaelod y bath, yna throwch y tap dŵr poeth ymlaen. Bydd hynny'n atal anwedd.

Berwch y tegell dan ffan echdynnu sydd ymlaen.

Tudalen Y Plant

Chwilair

Chwiliwch y geiriau yma:
MENYN – SIWGR – WYAU – BLAWD
HALEN – LLAETH – SUDD LEMWN
POWDWR POBI – HUFEN – EISIN

Enw: Oed:
Cyfeiriad:
.....
.....

S N T D W A L B LL W R H
I D E Y A P G W P I S G
W LL A L R P DD W T FF U E
G U W P A E D S S R DD I
R I Y W L H B U G K L S
P O W D W R P O B I E I
LL Y D LL H A H C E D M N
LL P M N B U U T G W W O
S FF P E LL S F T E F N A
T V P O N H L E LL A A W
T I V H M Y N M N B LL FF
N A U A R N N B R O K P

Cwblhewch y chwila'r, llenwch eich enw, oed a chyfeiriad a dychwelwch at:
Tudalen y Plant, Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr PS, Ceredigion SA48 7HH
Mae'r gystadleuaeth yma yn agored i blant sy'n byw mewn ty Barcud. Bydd yr enillydd yn cael ei ddewis o'r holl atebion cywir am
Dydd Gwener 28 Ebrill 2023. Bydd enw'r ennillydd yn cael ei gyhoeddu yn y cylchlythyr nesaf. Pob Lwc!

Rysait ar gyfer Torth Fanana Sgandinafaidd

Cynhwysion

- 2 wy mawr
- 150g o fenyn wedi toddi
- 3 banana fawr sy'n aeddfed iawn
- Cynhwysion sych**
- 250g o flawd plaen
- 100g o gnau
- 200g o ffrwythau sych
- 2 lwy fwrdd o hadau carwe
- 2 lwy de o bowdwr codi
- 1 llwy de o halen
- ½ llwy de o soda pobi



Cymysgwch y cynhwysion gwlyb. Ychwanegwch nhw at y cynhwysion sych. Rhowch y cymysgedd mewn tun torth 2 bwys wedi'i leinio. Pobwch ar dymheredd o 160°C mewn ffwrn â ffan am 40 i 50 munud neu nes bod sgiwer yn dod allan o'r dorth yn lân. Gadewch iddi oeri'n gyfan gwbl yn y tun.
Os nad ydych yn defnyddio wyau, ychwanegwch 1 fanana arall ac 1 llwy de o finegr.
Os nad ydych yn defnyddio menyf, ychwanegwch 150ml o olew heb flas.

Cystadleuaeth Arlunio

Hoffem wahodd plant ein tenantiaid (hyd at 12 oed) i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth arlunio ar gyfer yr haf.
Rydym yn chwilio am eich darluniau gorau maint A4 o "Fy Nhŷ".
Bydd yna wobrau i'r darluniau y byddwn yn eu hoffi fwyaf. Cofiwch nodi eich enw, eich cyfeiriad a'ch oedran ar gefn eich darlun.
Byddem yn hoffi pe baech yn dod â'ch darlun gyda chi i un o'n diwrnodau o hwyl i deuluoedd yn ystod yr haf, a gynhelir ym mis Mai a mis Awst eleni ledled Powys a Cheredigion.
Os na allwch ddod i ymuno yn yr hwyl yn ein digwyddiadau, gallwch anfon eich darluniau drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol - At sylw: Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL
Byddwn bob amser yn dwlu ar bob darlun a gawn, ac rydym yn edrych ymlaen at weld pa mor greadigol yw tenantiaid Barcud.
Bydd y beirniadu'n digwydd ym mis Medi a bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn y gaeaf o Newyddion Barcud.

Arolwg Byr o Fodlonrwydd

Diolch yn fawr i'r tenantiaid a helpodd gyda'n harolygon dros y ffôn yn ddiweddar, ac a ddywedodd wrthym beth yw eu barn am y gwasanaeth a ddarperir gan Barcud.
Roedd y cwestiynau'n rhai safonol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi a'u hadolygu a byddant yn ein helpu i ganolbwyntio ar y meysydd y mae angen i ni weithio arnynt er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir gennym.
Isod fe welwch chi ganlyniadau'r arolwg, ac rydym wedi'u cymharu â'n harolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2021.

Byddwn yn anfon y canlyniadau i Lywodraeth Cymru yn rhan o wybodaeth a gyflwynir yn flynyddol, fel bod modd iddynt gael eu cymharu â chanlyniadau cymdeithasau tai eraill ledled Cymru. Bydd ein canlyniadau ni, yn ogystal â chanlyniadau cymdeithasau tai eraill, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Os hoffech gymryd rhan mewn rhagor o arolygon, ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir gennym, beth am ymuno â "Pawb", y Fforwm Cartrefi? I gael gwybod mwy, cysylltwch â Sue neu Alisa ar 0300 111 3030 neu anfonwch ebost i post@barcud.cymru

Cwestiwn		Canlynia- dau Arolwg STAR 2021	Arolygon dros y Ffôn 2022-23	Tuedd
		Bodlonrwydd cyffredinol		
1	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r gwasanaeth a ddarperir gan eich cymdeithas dai?	80%	85.5%	↑
2	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych ag ansawdd cyffredinol eich cartref?	76%	83%	↑
3	At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r modd y mae eich cymdeithas dai yn ymdrin â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw?	72%	80%	↑
4	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'ch cymdogaeth fel lle i fyw ynddo?	80%	83%	↑
5	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod eich rhent yn cynnig gwerth am arian?	78%	87.5%	↑
6	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod eich taliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian?	64%	79.5%	↑
7	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod eich cymdeithas dai yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu ar eu sail?	58%	70.5%	↑
8	Gan feddwl am eich cartref chi'n benodol, pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod eich cymdeithas dai yn darparu cartref sy'n ddiogel?	85%	91%	↑
9	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r modd y mae eich cymdeithas dai yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?	53%	72%	↑
10	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r cyfleoedd a roddir i chi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau Barcud?	65%	74.5%	↑
11	Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod Barcud yn rhoi cyfle i chi fynegi barn am y modd y caiff gwasanaethau eu rheoli?	55%	72.5%	↑
		Cyffredinol		
12	I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r datganiad canlynol - "Mae gen i ffydd yn fy nghymdeithas dai"	68%	81%	↑

DIWRNODAU HWYL I'R TEULU

**AM
DDIM**

COWSHACC, Y Trallwng SY21 7TE

Dydd Mawrth 30 Mai 11am - 2pm

Hwb Cymunedol Penparcau, Aberystwyth SY23 1SY

Dydd Mercher 31 Mai 11am - 2pm

**AM
DDIM**

Bydd staff Barcud ac aelodau o Grŵp Monitro Barcud (sy'n gyd-denantiaid i chi) yno drwy'r dydd er mwyn i rieni ddod draw i sgwrsio.

Ymunwch â ni i fwynhau ystod o weithgareddau rhad ac am ddim a fydd yn cadw'r plant yn brysur.



**Paentio Wynebau - Gemau
Bocs Gwisgo i Fyny - Lego**

Lluniaeth am Ddim

A Llawer Mwy!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y digwyddiad hwn neu os oes angen cludiant am ddim arnoch, mae croeso i chi gysylltu â Barcud ar 0300 111 3030 neu drwy anfon ebost i post@barcud.cymru

Rhaid i blant fod dan oruchwyliaeth oedolyn bob amser.

CYFARFOD O FFORWM CYSWLLT Y TENANTIAID

Dydd Mercher 29 Mawrth 2023 10.30am – 1.30pm

Hafan yr Afon, Y Drenewydd, Powys SY16 2NZ

Cyfle i gwrdd â staff:

Tîm Arwain Barcud
Y Tîm Tai a Chefnogaeth
Tîm Cynnal, sef y Tîm Cynnal Tenantiaethau
Y Tîm Atgyweirio a Chynnal a Chadw

**Cinio a phaned
AM DDIM!**

Dewch i glywed am:

**Cludiant
AM DDIM!**

Grŵp Monitro Barcud
Fforddiadwyedd rhent ac i ble mae'r rhent yn mynd
Lleithder, llwydni ac anwedd, a beth y dylech ei wneud
Cynlluniau Barcud

Help gyda chostau gofal plant!

Os ydych yn bwriadu dod, os oes gennych unrhyw anghenion dietegol arbennig a/neu os oes angen cludiant AM DDIM arnoch, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 111 3030 erbyn dydd Llun 20 Mawrth

Nodwch fod maes parcio 'talu ac arddangos' gerllaw ac y gallwch hawlio cost parcio yn ôl os oes gennych dderbynneg

Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Cyswllt y Tenantiaid yn cael ei gynnal yn Aberystwyth